# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET:  19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif Cofnod 102 | **Cofnodion y Cyfarfodydd Cabinet a gynhaliwyd ar 15 a 28 Mawrth**<br><br>Cymeradwywyd | | | | | | |
| CAB/17-18/65 | Rhif Cofnod 103 | **Rhwydwaith Gwres Caerdydd: Cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Rhwydwaith Gwres Caerdydd:**<br><br>**Mae atodiadau C a D i'r adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu datgelu gan fod ynddynt wybodaeth i gydymffurfio â pharagraffau 14, 21 a pharagraff 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br><br>1. cymeradwyo mewn egwyddor Achos Busnes Amlinellol ar gyfer | Cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol a chaniatáu mwy o waith datblygu pellach sydd ei angen i ymgeisio am gyllid grant cyfalaf a datblygu Achos Busnes Llawn. Mae'r argymhellion hyn yn unol â'r ymrwymiad yn Uchelgais Prifddinas i ddatblygu cynigion rhwydwaith gwres cynaliadwy ar gyfer y ddinas. | Cafodd aelodau Ward perthnasol eu gwahodd i sesiwn friffio a gynhaliwyd ar 20 Mawrth. | 19 Ebrill 2018 | 20 Ebrill 2018 | 2 Mai 2018 | Andrew Gregory – Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Rhwydwaith Gwres Caerdydd ac y dylid awdurdodi datblygiad Achos Busnes Terfynol gael ei gyflwyno i'r Cabinet yn amodol ar sicrhau'r cyllid priodol fel y'i nodir yn yr adroddiad.<br><br>2. awdurdodi'r tîm project i fwrw ymlaen â'r ceisiadau grant mewn perthynas â HNDU a HNIP fel y'i nodir yn yr adroddiad;<br><br>3. y dylid awdurdodi'r tîm project i fwrw ymlaen ag ymgysylltiad pellach gyda rhanddeiliaid fel y'i nodir yn yr adroddiad;<br><br>4. dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Strydoedd | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Glân, Ailgylchu a’r Amgylchedd a’r Swyddog A151 a’r Swyddog Monitro i (i) orffen y strategaeth gaffael a bwrw ymlaen â’r gwaith o gaffael contractwr Dylunio, Adeiladu, Gweithredu a Chynnal (DAGCh) y project, a delio’n gyffredinol â phob agwedd ar y project a phennu'r contract DAGCh ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol a (ii) Cytuno ar fân ddiwygiadau i'r OBC gyda'r Cyfarwyddwr mewn ymgynghoriad â’r rheiny a nodir uchod er budd y Cyngor ac os yw natur y project yn wahanol iawn, cyfeirio'r project yn ôl at y Cabinet. | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | |
| CAB/17-18/66 | Rhif Cofnod 104 | **Trafnidiaeth Allyriadau Isel: Strategaeth ar gyfer Tanwyddau Trafnidiaeth Glanach a Gwyrddach**<br><br>**PENDERFYNWYD: cymeradwyo strategaeth a chamau arfaethedig y Cyngor ar gyfer cyflawni pontio i drafnidiaeth allyriadau isel yn y Ddinas** | Cymeradwyo camau i helpu i gydymffurfio â therfynau cyfreithiol ar gyfer nitrogen diocsid yn y ddinas. | | 19 Ebrill 2018 | 20 Ebrill 2018 | 1 Mai 2018 | Andrew Gregory – Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd |
| CAB/17-18/67 | Rhif Cofnod 105 | **Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Gwella Darpariaeth i Blant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2018-22 Adroddiad Ôl-Ymgynghoriad**<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br><br>1. y dylid cyflwyno hysbysiadau statudol ar | | Roedd ystod o randdeiliaid yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynnig gan gynnwys Aelodau, ysgolion, rhieni, disgyblion . | 19 Ebrill 2018 | 20 Ebrill 2018 | 1 Mai 2018 | NICK BATCHELAR Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes |

CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET:  19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gyfer y cynlluniau canlynol:<br><br>a) Ehangu capasiti Tŷ Gwyn i gynnig hyd at 198 o leoedd.<br><br>Addasu rhan o adeilad Canolfan Ieuenctid Trelái i gynnig tair ystafell ddosbarth newydd ar gyfer Ysgol Ty Gwyn ac i gysylltu adeiladau'r ysgol a'r ganolfan ieuenctid.<br><br>b) Ymestyn ystod oedran Greenhill o 11-16 i 11-19 a chynyddu capasiti'r ysgol i fod â lle ar gyfer 64 o leoedd.<br><br>Addasu tŷ'r gofalwr ar y safle i gynnig llety.<br><br>c) Newid math yr angen addysgol arbennig yn Ysgol Meadowbank o: | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ‘anghenion iaith llafaredd a chyfathrebu’, a: ‘anghenion iaith, lleferydd a chyfathrebu ac anableddau dysgu cymhleth’<br><br>Addasu’r adeilad i wella hygyrchedd anabledd.<br><br>d) Cau’n raddol y CAA yn Ysgol Allensbank, gan gau’r dosbarth yn gyfan gwbl ym mis Gorffennaf 2020, neu pan fydd yr holl ddisgyblion presennol wedi cwblhau’r lleoliad cynradd os yw’n gynt na hynny.<br><br>Agor dosbarth ymyrraeth gynnar ag 8 lle i blant ag anghenion iaith a lleferydd yn Ysgol Allensbank, gan dderbyn y cohort cyntaf ym mis Medi 2019. | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | e) Yn amodol ar benderfyniad Corff Llywodraethu Ysgol y Santes Fair, i fwrw ymlaen â'r hysbysiad statudol: cymeradwyo cynnwys llety CAA yng nghynllun Band B ar gyfer adeilad newydd yn Ysgol y Santes Fair.<br><br>f) Agor canolfan adnoddau arbenigol yn Ysgol Pwll Coch, gan gynnig hyd at 10 o leoedd i ddechrau, ond gyda sgôp i ehangu i 20 o leoedd yn y dyfodol, wrth i'r galw gynyddu.<br><br>g) Ehangu nifer y lleoedd yn CAA Ysgol Glantaf i 30 o leoedd.<br><br>Addasu a gwella'r llety i fod yn addas ar gyfer y niferoedd cynyddol. | | | | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET:  19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2. Nodir cyn gweithredu'r cynigion bydd angen cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion ar gyfer gweithredu neu beidio â gweithredu'r cynigion hynny. | | | | | | |
| CAB/17-18/68 | Rhif Cofnod 106 | **Cynnig Gofal Plant 30 awr Llywodraeth Cymru**<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br><br>1. Cymeradwyo Caerdydd fel Awdurdod Lleol Gweithredwr Cynnar ar gyfer y cynnig gofal plant 30 awr.<br><br>2. cymeradwyo'r rhesymeg a | Cefnogi'r Uchelgais Prifddinas i gefnogi teuluoedd drwy gymeradwyo'r rhesymeg ar gyfer gweithredu'r cynnig. | Mae'r holl aelodau etholedig wedi cael brîff ar y cynnig a'r rhesymeg a nodir ar gyfer cyflwyno hyn ledled Caerdydd. O'r ymatebion a dderbyniwyd (4) mae'r holl aelodau'n cefnogi Caerdydd yn dod | 19 Ebrill 2018 | 20 Ebrill 2018 | 1 Mai 2018 | Nick Batchelar - Y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes |

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | | | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | nodir ym mharagraffau 17-24 o'r adroddiad fel y dull cytunedig i adnabod y wardiau fydd yn cael y cynnig, wrth i gyllid ddod ar gael;<br>3. dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Addysg i weithredu cynnig y rhesymeg a nodir ym mharagraffau 17-24 o'r adroddiad | | yn EILA a'r rhesymeg a gynigiwyd ar gyfer cyflwyno'r cynnig. Holodd un aelod am addasrwydd darpariaeth gofal plant yng Nghaerdydd i ateb y galw ar gyfer y tymor hirach ac roedd gan ddau aelod ddiddordeb yn nifer y bobl fyddai'n elwa yn eu wardiau nhw. | | | | |
| | Rhif Cofnod 107 | **Canllaw Cynllunio Atodol**<br><br>**PENDERFYNWYD:** argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo'r CCA Archaeoleg ac Ardaloedd sy'n Sensitif yn Archeolegol a Rheoli Effeithiau Trafnidiaeth (Gan Gynnwys Safonau | Cydymffurfio â chanllawiau llywodraeth Cymru ar y broses i baratoi canllaw cynllunio atodol. | Mae ymgynghori ar y CCA yn cydymffurfio â Chynllun Cyfranogiad Cymunedol y CDLl. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y | Bydd y mater hwn yn cael ei benderfynu gan y Cyngor ac felly nid oes angen ei alw i mewn | | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Parcio), sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn. | | canlynol:<br>• Ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos<br>• Hysbysiad cyhoeddus yn y wasg leol i hysbysu unrhyw un sydd â diddordeb.<br>• Roedd copïau o'r dogfennau i'w gweld ym mhob llyfrgell yng Nghaerdydd, yn Neuadd y Sir ac ar wefan y Cyngor.<br>Yn ogystal, | | |

# CYNGOR CAERDYDD

# COFRESTR PENDERFYNIADAU CABINET: 19 EBRILL 2018

| Rhif y Penderfyniad | Rhif Cofnod | Penderfyniad | Rheswm | Ymgynghoriad a wnaethpwyd | Dyddiadau | Cyfrifoldeb dros weithredu ar ôl y dyddiad a nodir |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | hysbyswyd cynghorwyr am yr ymgynghoriad CCA presennol ac anfonwyd e-bost/llythyr i ymgyngoreion ar y Rhestr Ymgynghoriad CCA – roedd y rhestr hon yn cynnwys y CDLI ffurfiol. . | | |
| **Wedi'i baratoi gan swyddfa'r Cabinet:** | | | | | **20 Ebrill 2018** | |
| **Wedi'i gyflwyno i'r Prif Weithredwr ar gyfer Llofnod** | | | | | **20 Ebrill 2018** | |

Cymeradwywyd ar gyfer ei Gyhoeddi: Prif Weithredwr Dyddiad: